# Adroddiad chwythu'r chwiban blynyddol 2024-25

Dull Ofcom o reoli datgeliadau chwythu'r chwiban allanol a chrynodeb o'r datgeliadau yn 2024-25

**Adroddiad**

Cyhoeddwyd 23 Medi 2025

# Cynnwys

1. Trosolwg .......... 3
2. Cefndir .......... 5
3. Datgeliadau chwythu'r chwiban .......... 8
4. Casgliad .......... 11

# 1. Trosolwg

## Cefndir

Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol, yr awdurdod cystadleuaeth gydamserol a'r gofodwr dynodedig o gyfraith defnyddwyr ar gyfer diwydiannau cyfathrebu'r DU. Rydym yn rheoleiddio telathrebu llinell sefydlog a symudol, gwasanaethau cyfradd premiwm, teledu, radio, gwasanaethau ar alw, gwasanaethau ar-lein, gwasanaethau post, platfformau rhannu fideo a sefydlwyd yn y DU a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr y neu ddefnyddio.

Rydym yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, ac mae ein dyletswyddau wedi'u nodi mewn statud, gan ein gwneud yn atebol i Senedd y DU.[1]

Ein prif ddyletswydd yw 'hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau, a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol'.[2]

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Dyma adroddiad 2024/25 Ofcom ar ddatgeliadau chwythu'r chwiban a wnaed i Ofcom fel y 'Person Rhagnodedig' perthnasol.[3] Mae Ofcom wedi'i ddynodi fel y 'Person Rhagnodedig' ar gyfer datgeliadau chwythu'r chwiban ar faterion sy'n ymwneud â:

- darparu rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu electronig, a'r defnydd o'r sbectrwm electromagnetig;
- darlledu a darparu gwasanaethau teledu a radio;
- rheoleiddio gwasanaethau llwyfannau rhannu fideo o dan Ran 4B o Ddeddf Cyfathrebu 2003;[4]
- rheoleiddio gwasanaethau rheoleiddiedig o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023;
- rheoleiddio gwasanaethau post;
- perchnogaeth a rheolaeth y cyfryngau; a
- cystadleuaeth mewn marchnadoedd cyfathrebu.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban a dderbyniwyd gennym ar gyfer y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi yn unol â Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) 2017 ac ymdrin â'r achosion y mae Ofcom yn credu'n rhesymol eu bod yn ddatgeliadau cymwys o fewn ystyr adran 43B o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 ac sy'n dod o fewn y materion y mae Ofcom wedi'i ragnodi felly mewn perthynas â nhw. Mae hefyd yn cynnwys nifer yr achosion a gafodd eu dwyn ymlaen o'r

[1] Mae Ofcom yn gweithredu o dan nifer o Ddeddfau Seneddol gan gynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddfau yr Economi Ddigidol 2010 a 2017, Deddf Gwasanaethau Post 2011 a Deddf Diogelwch Ar-lein 2023.

[2] Adran 3(1) Deddf Cyfathrebiadau 2003.

[3] Gorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014 (legislation.gov.uk), fel y'i diwygiwyd ac sydd mewn grym. Y diwygiadau perthnasol i Ofcom: Gorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) (Diwygio) (Rhif 2) 2022 a Gorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) (Diwygio) 2023.

[4] Nodwch fod y gyfundrefn Llwyfannau Rhannu Fideo wedi'i diddymu ym mis Gorffennaf 2025 ac mae pob llwyfannau rhannu fideos yn awr yn cael ei reoleiddio'n llawn o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein - Cyfundrefn Llwyfannau Rhannu Fideo y DU - Ôl-weithredol - Ofcom (Saesneg).

flwyddyn flaenorol, datgeliadau ehangach y mae Ofcom wedi'u derbyn a'u hasesu yn y cyfnod perthnasol, yn ogystal â datgeliadau a drosglwyddwyd i Berson Rhagnodedig arall.

Mae Ofcom wedi adrodd yn flynyddol ar nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban ers dechrau blwyddyn ariannol 2014-15 yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ofcom.

# 2. Cefndir

## Rhwymedigaethau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ("y Ddeddf"),[5] a ddiwygiodd Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, yn darparu amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr sy'n datgelu gwybodaeth er lles y cyhoedd rhag dioddef niwed neu gael eu diswyddo'n annheg ar y sail eu bod wedi gwneud datgeliad gwarchodedig. Mae Ofcom yn 'Berson Rhagnodedig' o dan y ddeddf, [6] sy'n golygu y gall unigolion elwa o amddiffyniadau'r ddeddf trwy wneud eu datgeliad chwythu'r chwiban i Ofcom ar faterion sy'n ymwneud â:[7]

a) darparu rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu electronig a defnyddio'r sbectrwm electromagnetig;
b) darlledu a darparu gwasanaethau teledu a radio;
c) rheoleiddio gwasanaethau llwyfannau rhannu fideo o dan Ran 4B o Ddeddf Cyfathrebu 2003;
d) rheoleiddio gwasanaethau diogelwch ar-lein o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023;
e) rheoleiddio gwasanaethau post;
f) perchnogaeth a rheolaeth y cyfryngau; a
g) cystadleuaeth mewn marchnadoedd cyfathrebu.

Rydym yn trafod y darpariaethau datgelu ehangach o dan y Ddeddf ar dudalen 8. Nid oes gan Ofcom unrhyw rôl wrth benderfynu yn y pen draw a yw'r amddiffyniadau'r Ddeddf yn berthnasol (byddai hyn yn fater i Dribiwnlys Cyflogaeth) ac nid yw'n ymwneud ag agweddau cyflogaeth datgeliadau chwythu'r chwiban.

Mae gan Ofcom nifer o rwymedigaethau fel Person Rhagnodedig, gan gynnwys rhwymedigaeth adrodd flynyddol, a'r gofyniad i weithredu mewn modd sy'n cadw cyfrinachedd ac anhysbysrwydd yr unigolyn sy'n gwneud y datgeliad.[8] Yn aml, bydd chwythwr chwiban eisiau amddiffyn ei hunaniaeth oherwydd eu bod yn teimlo'n agored i niwed wrth godi'r mater gyda'i gyflogwr; neu efallai ei fod eisoes wedi codi'r mater yn fewnol ac yn ystyried nad yw wedi cael ei drin yn briodol.

## Ynglŷn â'r wybodaeth a dderbyniwn

Mae gwybodaeth am chwythu'r chwiban ar gael ar dudalen we Ofcom am chwythu'r chwiban[9] a gall chwythwyr chwiban datgelu i Ofcom drwy ddefnyddio ffurflen we ar-lein[10] neu drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol:

[5] Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (legislation.gov.uk), sydd wedi diwygio Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996.
[6] Person Rhagnodedig – Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol – Atodlen 1 i Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014/2418 fel y'i diwygiwyd ac sydd mewn grym (gweler troednodyn rhif 3 uchod).
[7] Adran 43F o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, a fewnosodwyd gan Adran 1 o Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd (PIDA) 1998 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/23/section/1
[8] Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) 2017.
[9] Chwythu'r chwiban: Gwneud datgeliad gwarchodedig i Ofcom.
[10] Chwythu'r chwiban: Gwneud datgeliad gwarchodedig i Ofcom.

Tîm Cyswllt Defnyddwyr (Chwythu'r Chwiban)
Ofcom

Riverside House

2a Southwark Bridge Road

Llundain SE1 9HA

Mae datgeliadau chwythu'r chwiban yn ein helpu i reoleiddio'r sectorau o fewn ein cylch gwaith rheoleiddio. Mae'r wybodaeth rydym yn ei chael yn gallu darparu gwybodaeth werthfawr am y sefydliadau perthnasol a'r sectorau diwydiant yn gyffredinol. Gallai hyn ddylanwadu ar benderfyniadau polisi yn y dyfodol a/neu arwain at ymchwiliad gorfodi hefyd.

Mae gennym amryw o opsiynau o ran sut i ymateb i wybodaeth a ddarperir gan chwythwyr chwiban. Ar ôl derbyn datgeliad gan chwythwr chwiban, byddwn yn gwneud asesiad cychwynnol ynghylch a yw'r datgeliad yn codi pryderon ynghylch cydymffurfiaeth cwmni â'i rwymedigaethau rheoleiddiol neu gystadleuaeth y dylai Ofcom ymchwilio iddynt ymhellach, yn unol â'n Canllawiau Gorfodi.[11]

Mae nifer o gamau/canlyniadau posibl. Gallwn wneud y canlynol:

- **ceisio casglu rhagor o wybodaeth** cyn dod i benderfyniad ynghylch a ddylid ymchwilio. Gall hyn olygu cysylltu â'r sefydliad neu'r unigolyn sy'n destun yr honiadau. Ni fyddem yn datgelu hunaniaeth na manylion cyswllt y chwythwr chwiban heb eu caniatâd.[12]
- **mynd i'r afael â'r honiadau heb agor ymchwiliad ffurfiol**. Gall hyn olygu ysgrifennu at y sefydliad neu'r unigolyn i'w hatgoffa o unrhyw ofynion rheoleiddiol perthnasol. Mewn achosion eraill, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan chwythwr chwiban i gefnogi prosiectau a gweithgareddau monitor eraill.
- **trosglwyddo gwybodaeth chwythu'r chwiban i reoleiddiwr mwy priodol**, er enghraifft os yw'r ymddygiad yn ymwneud â sector nad yw Ofcom yn ei reoleiddio.
- **penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach**. Nid oes gofyniad cyfreithiol ar Ofcom i ymchwilio i bob datgeliad a dderbynnir. Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio, rydym yn ystyried pa mor dda rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ddiogelu budd y cyhoedd.
- **penderfynu agor ymchwiliad**. Byddem yn dilyn y gweithdrefnau arferol a nodir yn ein Canllawiau Gorfodi, sy'n cynnwys cyhoeddi cyhoeddiad agoriadol ar ein gwefan. Efallai y byddwn yn penderfynu agor ymchwiliad lle rydym yn ystyried fod y wybodaeth a ddarperir yn codi pryderon credadwy ynghylch cydymffurfiaeth cwmni â'i rwymedigaethau rheoleiddiol neu gystadleuaeth.

Nid ydym yn cynnig cyngor i chwythwyr chwiban ynghylch pa amddiffyniad a gynigir iddynt. Er na allwn gynnig cyngor cyfreithiol, mae ffynonellau cymorth eraill, megis:

- Protect, yr elusen chwythu'r chwiban
- ACAS
- Cyngor ar Bopeth
- Undeb llafur chwythwr chwiban ei hun, os ydych yn aelod.

Mae'r darpariaethau chwythu'r chwiban o dan y Ddeddf yn diogelu unrhyw 'weithiwr' sy'n gwneud 'datgeliad gwarchodedig' o wybodaeth, rhag cael ei ddiswyddo neu ei gosbi gan ei gyflogwr oherwydd y datgeliad**.** Gellir gorfodi hyn drwy Dribiwnlys Cyflogaeth. Ni all Ofcom benderfynu yn y pen draw a yw datgeliad yn gymwys i gael ei amddiffyn nac ymyrryd mewn cysylltiadau cyflogaeth.

[11] Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol ar gyfer Ymchwiliadau (Saesneg).

[12] Ni allwn warantu anhysbysrwydd, gan y gall cyflogwr adnabod chwythwr chwiban yn annibynnol.

Cynghorir chwythwyr chwiban i ofyn am gyngor gan un o'r cyrff a nodir uchod os oes ganddynt unrhyw bryderon penodol. Gall chwythwyr chwiban hefyd ofyn am gyngor cyfreithiol gan berson â chymwysterau addas, fel cyfreithiwr.

Byddwn yn trin unrhyw wybodaeth a roddir i ni mewn modd sensitif a chyfrifol. Byddwn yn cyfyngu gwybodaeth ynghylch pwy yw'r chwythwr chwiban i nifer fach iawn o bobl, ac ni fyddem yn datgelu'r wybodaeth honno oni bai bod gennym rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny, er enghraifft gan farnwr mewn llys barn. Ond hyd yn oed os ydym yn gwneud ein gorau glas i amddiffyn pwy yw'r chwythwr chwiban, ni allwn warantu anhysbysrwydd, gan y gall cyflogwr eu hadnabod yn annibynnol.

# 3. Datgeliadau chwythu'r chwiban

**Crynodeb o'r 54 o ddatgeliad chwythu'r chwiban a dderbyniwyd yn 2024-25:**

- 51 o ddatgeliad chwythu'r chwiban newydd yr oedd Ofcom yn credu'n rhesymol eu bod yn gymwys ac yn dod o fewn cwmpas Ofcom fel Person Rhagnodedig
- Trosglwyddwyd 3 o'r datgeliadau hyn i Berson Rhagnodedig arall
- 0 datgeliadau ehangach

O'r 54 o ddatgeliad chwythu'r chwiban a dderbyniwyd:

- Roedd 0 yn dal i gael eu hasesu ar ddiwedd y flwyddyn;
- Caewyd 54 yn ystod 2024-25; a
- Cynhaliwyd 0 ymchwiliad gorfodi o ganlyniad i ddatgeliad yn 2024-25.

Mae pob un o'r 10 datgeliadau chwythu'r chwiban a gariwyd drosodd o 2023/24 wedi'u cau.

Ni dderbyniwyd na chaewyd unrhyw ddatgeliadau ehangach yn 2024-25.

## Mathau o ddatgeliadau chwythu'r chwiban

### Datgeliadau chwythu'r chwiban i Bersonau Rhagnodedig

Er mwyn diogelu datgeliad i Berson Rhagnodedig, rhaid i'r gweithiwr wneud y datgeliad mewn ewyllys da a rhaid iddo gredu'n rhesymol bod y ddau:

- yn dod o fewn unrhyw ddisgrifiad o faterion mewn perthynas â'r Person Rhagnodedig; a
- bod yr wybodaeth a ddatgelwyd ac unrhyw honiad sydd ynddi yn sylweddol wir.[13]

### Datgeliadau ehangach

Er mwyn i ddatgeliad ehangach gael ei dderbyn, bydd angen i'r gweithiwr sy'n gwneud y datgeliad hefyd ddangos (ymhlith pethau eraill), ei fod wedi datgelu'r un wybodaeth i raddau helaeth i'w gyflogwr neu i Berson Rhagnodedig, neu eu bod yn credu'n rhesymol y byddent wedi dioddef niwed neu y byddai tystiolaeth faterol wedi cael ei dinistrio.[14]

Er bod y meini prawf asesu y mae'n rhaid i Ofcom eu cyflawni i dderbyn datgeliad ehangach yn wahanol, mae'r warchodaeth a gynigir gan Ofcom o ran cyfrinachedd ac anhysbysrwydd yr un fath â datgeliad chwythu'r chwiban a wneir i Ofcom yn ei rôl fel Person Rhagnodedig. Hefyd, mae'r

[13] Adran 43F o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, a fewnosodwyd gan Adran 1 o Ddeddf Datgelu Budd y Cyhoedd (PIDA) 1998 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/23/section/1
[14] Adran 43G o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, a fewnosodwyd gan Adran 1 o Ddeddf Datgelu Budd y Cyhoedd (PIDA) 1998 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/23/section/1

amddiffyniadau o dan y Ddeddf i'r chwythwr chwiban yr un fath ar gyfer datgeliad ehangach ag ar gyfer datgeliad i Berson Rhagnodedig.[15]

# Nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban

Derbyniodd Ofcom 54 o ddatgeliadau chwythu'r chwiban newydd yn 2024-25:

- 51 o ddatgeliadau chwythu'r chwiban yr oedd Ofcom yn credu'n rhesymol eu bod yn gymwys ac yn dod o fewn cwmpas Ofcom fel Person Rhagnodedig;
- 0 datgeliadau ehangach; a
- Trosglwyddwyd 3 o'r datgeliadau chwythu'r chwiban hyn i Berson Rhagnodedig arall.

## Datgeliadau cymwys a dderbynnir gan Ofcom fel Person Rhagnodedig wedi'u categoreiddio yn ôl camau a gymerwyd

Yn 2024-25, derbyniwyd pum deg un o ddatgeliadau chwythu'r chwiban a chau chwe deg un (pob un o achosion a dderbyniwyd yn 2024-25 a'r deg achos a gyflwynwyd o'r flwyddyn flaenorol). Ar ôl asesiad cychwynnol, caewyd y rhan fwyaf o'r achosion hyn heb fod angen ymgysylltu â chyflogwr y chwythwr chwiban. Nid oedd unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban yn dal i gael eu hasesu ar 31 Mawrth 2025.

**Tabl 1: Camau a gymerwyd ar gyfer datgeliadau chwythu'r chwiban yn 2024-25.**

| Achosion datgelu chwythu'r chwiban | Y camau a gymerwyd | Datgeliadau chwythu'r chwiban yn ôl camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| **Achosion agored** | Ymholiadau parhaus | 0 |
| | Ymchwiliad Gorfodi Parhaus | 0 |
| **Achosion a gaewyd** | Dim cyswllt â'r cyflogwr – nid oes angen gweithredu | 28 |
| | Cyswllt uniongyrchol â'r cyflogwr – dim camau pellach ar ôl yr Asesiad Cychwynnol | 1 |
| | Cyswllt uniongyrchol â'r cyflogwr – wedi cymryd camau pellach ar ôl yr Asesiad Cychwynnol ond dim camau gorfodi | 0 |
| | Monitro gweithredol | 32 |
| | Ymchwiliad Gorfodi – heb ganfod achos o dorri rheoliadau | 0 |

[15] Er mwyn cael eu trin fel 'datgeliad gwarchodedig' o dan y Ddeddf, bydd angen i ddatgeliadau chwythu'r chwiban (p'un a ydynt yn cael eu gwneud i Berson Rhagnodedig neu o dan ddarpariaethau datgelu ehangach y Ddeddf) fod yn gymwys i gael eu gwarchod. Diffinnir datgeliadau cymwys yn adran 43B o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 fel y'i mewnosodwyd gan y Ddeddf (https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/23/section/1).

| Achosion datgelu chwythu'r chwiban | Y camau a gymerwyd | Datgeliadau chwythu'r chwiban yn ôl camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| | Ymchwiliad Gorfodi – wedi canfod achos o dorri rheoliadau | 0 |
| **CYFANSWM** | | **61** |

## Datgeliadau cymwys a dderbynnir gan Ofcom fel Person Rhagnodedig wedi'u categoreiddio yn ôl sector y diwydiant

O'r pum deg un o ddatgeliadau chwythu'r chwiban gwarchodedig a dderbyniwyd gennym yn 2024-25, tarddodd deunaw o'r sector post, tarddodd saith ar hugain o’r sector cyfathrebu, pedwar o'r sector darlledu, un o sbectrwm ac un mewn categori arall.

**Tabl 2: Datgeliadau chwythu'r chwiban yn ôl sector yn 2024-25.**

| | Datgeliadau chwythu'r chwiban yn ôl sector |
|---|---|
| **Darlledu** | 4 |
| **Cyfathrebiadau** | 27 |
| **Cyfraith Cystadleuaeth** | 0 |
| **Sbectrwm** | 1 |
| **Diogelwch Ar-lein** | 0 |
| **Post** | 18 |
| **Llwyfannau Rhannu Fideo** | 0 |
| **Arall** | 1 |
| **CYFANSWM** | **51** |

## Nifer y datgeliadau ehangach

Ni chawsom unrhyw ddatgeliadau ehangach yn 2024-25.

## Nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban a drosglwyddwyd i Berson Rhagnodedig arall

Cawsom dri datgeliad chwythu'r chwiban yn 2024-25 a nodwyd gennym fel rhai priodol i’w trosglwyddo i Berson Rhagnodedig arall.

# 4. Casgliad

Gall datgeliadau chwythu'r chwiban fod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth sy'n cefnogi ein prif ddyletswydd "i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr mewn perthynas â materion cyfathrebu, lle bo hynny'n briodol trwy hyrwyddo cystadleuaeth."[16]

Eleni y sector cyfathrebu oedd y maes mwyaf lle cawsom ddatgeliadau chwythu'r chwiban yn y flwyddyn ariannol 2024-25, a symudodd y sector post i lawr i ddod yn ail faes mwyaf.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos yn ystod y flwyddyn ariannol 2024-25, ein bod wedi cynnal nifer o asesiadau ar ddatgeliadau chwythu’r chwiban ond na wnaethom agor ymchwiliad gorfodi na chymryd camau penodol yn erbyn cyflogwr. Fodd bynnag, rydym yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir i wneud penderfyniadau polisi mwy gwybodus, a, lle bo'n briodol, cymryd camau gorfodi ehangach.

Yn olaf, nodwn nad oedd unrhyw un o'r datgeliadau wedi cael effaith ar ein gallu i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio neu gyflawni ein hamcanion yn ystod y cyfnod adrodd.

[16] Datganiad: Cynllun Gwaith Ofcom 2025/26, paragraff 2.1.